



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019 - 2020

Lyn Williams  
Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl

## Cynnwys

Crynodeb gweithredol .....	5
Cyflwyniad .....	7
Rhoi safonau'r Gymraeg ar waith.....	7
Safonau gwasanaeth.....	8
Safonau polisi.....	8
Safonau gweithredol.....	8
Safonau cadw cofnodion .....	8
Rhoi'r safonau ar waith yn fewnol .....	8
Canllaw Misol i Reolwyr .....	8
Grŵp Pencampwyr .....	8
Safonau gwasanaeth .....	8
Canolfan Gofal Cwsmeriaid.....	8
Y cyfryngau cymdeithasol .....	9
Gwaith i wella ein safonau gwasanaeth .....	9
Gwefan.....	9
Caffael.....	9
Map perygl llifogydd tymor hir .....	9
Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer y Coronafeirws .....	10
Gweithio mewn partneriaeth .....	10
Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.....	11
Diwrnod Santes Dwynwen 25 Ionawr 2020.....	11
Dydd Gŵyl Dewi 1 Mawrth 2020 .....	11
Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.....	11
Safonau polisi .....	12
Ymgynghori .....	12
Safonau gweithredol .....	12
TGCh.....	12
Nodi siaradwyr Cymraeg .....	12
Dysgu a datblygu .....	12
MyNRW.....	13
Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg.....	13
Safonau cadw cofnodion.....	13
Cwynion .....	13
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	14
Sgiliau Cymraeg yr holl weithwyr .....	14
Llenwi swyddi gwag.....	14

Monitro mewnol.....	15
Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018/19 .....	16
Monitro Cyfoeth Naturiol Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg.....	17
Canfyddiadau'r ymarfer monitro .....	17
Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru 2019 i 2020 .....	17
Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg .....	17
Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.....	17
Thema 3: Creu amodau, seilwaith a chyd-destun ffafriol.....	18
Perygl diffyg cydymffurfio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.....	18
Casgliad.....	19
Atodiad 1.....	20
Rhoi safonau'r Gymraeg sydd gennym ar waith.....	20
Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau (1 – 83).....	20
Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau polisi (84 – 93).....	21
Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau gweithredol (94 – 140) .....	21
Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau cadw cofnodion a safonau atodol (141 – 168).....	22
Atodiad 2.....	24
Ystadegau'r cyfryngau cymdeithasol.....	24
Atodiad 3.....	26
Cynlluniau Parhad Busnes .....	26
Gwaith cyfieithu .....	26
Blaenoriaethu gwaith cyfieithu:.....	26
Dad-flaenoriaethu cyfieithu:.....	26
Peidio â chyfieithu: .....	26
Rydym hefyd wedi gwneud y canlynol:.....	26
Canolfan Gofal Cwsmeriaid .....	26
Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.....	27
Atodiad 4.....	28
Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg.....	28
Hyfforddiant Cymraeg wythnosol .....	28
Cyrsgiau wythnosol a fynychwyd yn allanol .....	28
Rhagor o gymorth i ddysgwyr .....	29
Cyrsgiau preswyl a gynhelir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol .....	29
Cyrsgiau ar-lein: cwrs "Croeso Cymraeg Gwaith" (cwrs ar-lein deg awr o hyd) .....	29
Ysgol Galan/Pasg/Haf.....	29
Gloywi iaith (sgiliau ysgrifenedig).....	29

Adnoddau Cymraeg ychwanegol .....	30
Atodiad 5.....	31
Derbyniwyd pum cwyn gan y cyhoedd yn ystod blwyddyn adrodd 2019/2020 .....	31
Y gŵyn gyntaf .....	31
Camau gweithredu ychwanegol.....	31
Yr ail gŵyn.....	31
Y drydedd gŵyn .....	31
Y bedwaredd gŵyn.....	32
Y bumed gŵyn .....	32
Cwynion gan staff.....	32
Atodiad 6.....	34
Sgiliau Cymraeg yr holl weithwyr ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol .....	34
Atodiad 7.....	36
Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg 2020-2021 .....	36
Amcan 1 .....	36
Amcan 2 .....	36
Amcan 3 .....	36
Amcan 4 .....	37
Amcan 5 .....	37
Amcan 6 .....	39

## Crynodeb gweithredol

Croeso i'r crynodeb o'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-2020. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut rydym wedi rhoi'r polisi a'r gwaith ar waith i wella'n gwasanaethau Cymraeg, yn unol â'r gofynion yn safonau'r Gymraeg sydd gennym, yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae ein hiaith, diwylliant a threftadaeth yn adnodd naturiol gwerthfawr yma yng Nghymru, ac mae hyrwyddo a rhannu ein treftadaeth ddiwylliannol yn bwysig i ni fel sefydliad, gan helpu i sicrhau cynaliadwyedd ein hadnoddau naturiol ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ymfalchïo yn hyrwyddo'n digwyddiadau diwylliannol unigryw yng Nghymru yn ddwyieithog ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i bobl Cymru a thu hwnt. Mae'n bwysig i ni fod pobl yn gallu cyfathrebu â ni yn yr iaith maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus ynnddi wrth ei siarad a'i deall a'n bod yn cefnogi'n staff i ddatblygu eu sgiliau iaith, gan gynyddu nifer yr aelodau staff sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog ar gyfer y dyfodol.

I fodloni'r uchelgeisiau i Gymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i nodau llesiant, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, roedd angen strwythur newydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio'n wahanol yn unol â'r egwyddorion hyn a gweithio'n agosach gyda rhanddeiliaid i greu ffyrdd newydd o reoli ein hadnoddau naturiol. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r sefydliad wedi cychwyn ar Raglen Newid i greu strwythur mwy cadarn a fydd yn ei dro yn creu sefydliad rhagorol a fydd, fel y prif sefydliad, yn cyflawni ein diben o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd ledled Cymru, ac roedd y Gymraeg yn ffurfio rhan o egwyddorion y Rhaglen Newid wrth sicrhau bod gan bob tîm, lle y bo'n bosib, o leiaf un siaradwr Cymraeg, gan alluogi'r tîm i ddelio â phobl eraill yn eu hiaith ddewisol.

Mae 23.7% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac maent wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd a thimau ledled Cymru. Eleni, rydym wedi parhau i gefnogi ac annog ein dysgwyr a'n siaradwyr Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau iaith yn ystod amser gwaith. Ein gweledigaeth yw datblygu i fod yn sefydliad naturiol ddwyieithog, un sy'n cynnig dewis iaith go iawn i'n cwsmeriaid yn ein holl weithleoedd.

Ym mis Ebrill, gwnaethom benodi Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol newydd yn ein Tîm Gweithredol, ac mae'n siaradwr Cymraeg rhugl.

Cawsom y pleser o gymryd rhan yn ymgyrch iaith Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg ar 6 Rhagfyr i hyrwyddo hawliau siaradwyr Cymraeg. Dyma oedd diwrnod i ddatlu'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â ni. Tynnwyd sylw at y diwrnod hyrwyddol hwn ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a hefyd yn fewnol ar y fewnwyd ar gyfer ein staff ein hunain. Rydym yn gobeithio bod y gwaith hyrwyddol hwn wedi helpu i gynyddu'r defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn ystod y pandemig coronafeirws diweddar, roedd ystyriaethau'r Gymraeg yn rhan o'n Cynlluniau Parhad Busnes.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd yn ôl y gofyn.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg; gallwn hefyd ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

## Cyflwyniad

Fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, daeth y safonau i rym ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ar 25 Ionawr 2017, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac maent yn cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Nod y safonau yw:

- Darparu gwasanaeth Cymraeg gwell a mwy cyson i siaradwyr Cymraeg
- Egluro'n glir i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Egluro'n glir i sefydliadau cyhoeddus ynglŷn â'u dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg
- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi gweithredu'r safonau a'r gwaith rydym wedi'i wneud i wella ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae angen i'r Adroddiad Blynyddol hwn gael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi bob blwyddyn mewn cydymffurfiaeth â gofynion y safonau, ac mae'n rhaid iddo fanylu ar sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn adrodd o 2019 i 2020.

## Rhoi safonau'r Gymraeg ar waith

Er mwyn helpu ein holl aelodau staff i weithio'n ddwyieithog, mae gennym bolisi a chanllawiau ar safonau'r Gymraeg sydd ar gael ar ein mewnwyd ac sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'r canllawiau yn esbonio'r hyn y mae angen i'r staff ei wneud wrth fynd i'r afael â'r Gymraeg a'i hystyried fel rhan o'u gwaith beunyddiol. Mae gennym ganllawiau ar gyfer mynd i'r afael â'r canlynol:

- Gohebiaeth
- Galwadau ffôn
- Cyfarfodydd a digwyddiadau
- Desg dderbyn a chyfleusterau
- Staffio a recriwtio
- Cyfieithu
- Hyfforddiant Cymraeg
- Sut i asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg
- Llawlyfr y brand
- Templedi arwyddion dwyieithog ar gyfer ein gwaith
- Iechyd a diogelwch
- Dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr
- Clefyd coed
- Esbonio'n gwaith

Fel sefydliad, rydym yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gael cyngor ac arweiniad pan fo angen i sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir.

Caiff y safonau y mae gofyn i ni gydymffurfio â hwy eu rhannu'n bedwar categori:-

## Safonau gwasanaeth

Ygwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd.

## Safonau polisi

Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r broses benderfynu trwy gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag effaith niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Safonau gweithredol

Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn ein prosesau gweinyddol mewnol.

## Safonau cadw cofnodion

Cadw cofnodion er mwyn cydymffurfio â gofynion y safonau mewn meysydd fel sgiliau Cymraeg y staff, hyfforddiant, cwynion a recriwtio.

Mae angen i'r Adroddiad Blynyddol hwn gael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi bob blwyddyn mewn cydymffurfiaeth â gofynion y safonau, ac mae'n rhaid iddo fanylu ar sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn adrodd o 2019 i 2020. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn rydym wedi'i wneud drwy gydol 2019/20 i fodloni'r safonau hyn. Gellir gweld y gwaith a'r mesurau sydd ar waith i helpu'r holl staff i weithio'n ddwyieithog, cydymffurfio â'r safonau a'u gweithredu yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.

Mae gan y Pennaeth Rheoli Pobl gyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi safonau'r Gymraeg, a bydd arweinydd y tîm Adnoddau Dynol yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r polisi ar draws y sefydliad.

## Rhoi'r safonau ar waith yn fewnol

### Canllaw Misol i Reolwyr

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi codi ymwybyddiaeth o'r safonau'n fewnol drwy ein bwletin Canllaw Misol i Reolwyr, sy'n cael ei anfon at yr holl reolwyr i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybod iddynt am gamau gweithredu i'w trafod a'u gweithredu gyda'u tîm. Mae'r rhain wedi cynnwys timau'n asesu eu sgiliau Cymraeg ac atgoffa aelodau staff i gynnwys llofnodion dwyieithog ar e-byst, yn ogystal ag atgoffa rheolwyr i gwblhau ymarfer monitro safonau'r Gymraeg.

### Grŵp Pencampwyr

Mae gan ein Grŵp Pencampwyr Iaith Gymraeg gynrychiolydd o bob cyfarwyddiaeth a'u rôl yw codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn eu maes busnes.

Gan fod mwyafrif y swyddi gwag yn dilyn ein Rhaglen Newid wedi'u llenwi, gyda thimau a staff newydd ar waith, mae'n amserol ein bod yn ystyried aelodaeth a diben y grŵp ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym aelodau yn ein holl weithleoedd yn y strwythur newydd i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r polisi.

## Safonau gwasanaeth

### Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Mae ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn darparu gwasanaeth dwyieithog yn rhagweithiol i gwsmeriaid wrth ateb galwadau. O'r 27,532 o alwadau a dderbyniwyd, roedd 6.75%



(1,860) o'r galwadau'n cael eu cynnal drwy'r Gymraeg, sef cynnydd o 0.05% ar y galwadau a gafodd eu cynnal yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn y llynedd. Mae'r cynghorwyr hefyd yn delio â gohebiaeth sy'n cyrraedd ein cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau ac mae pob e-bost yn cael ymateb yn yr iaith y cafodd ei ysgrifennu.

### **Y cyfryngau cymdeithasol**

Mae ein gwefan gorfforaethol swyddogol, [cyfoethnaturiol.cymru](http://cyfoethnaturiol.cymru), yn hollol ddwyieithog. Mae cyhoeddwy'r ein gwefan yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cyhoeddi yn unol â gofynion ein safonau cyfieithu.

Rhoddir dewis o iaith i ddefnyddwyr ar y wefan i ddechrau, ac maen nhw'n gallu newid eu dewis iaith ar bob tudalen.

- Cyfanswm nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan yn ystod 2019/2020 = 4,286,042\*
- Nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan drwy'r Gymraeg yn 2019/2020 = 29,860\* Dyma 0.7% o'r defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan. Mae nifer y defnyddwyr sydd wedi cael mynediad i'n gwefan yn Gymraeg wedi disgyn 0.4% dros y cyfnod adrodd hwn.

Cafwyd cynnydd yn nifer y defnyddwyr sy'n ein dilyn ni ar ein holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae modd gweld rhagor o wybodaeth yn **Atodiad 2**.

\*Roedd y ffigurau'n gywir ar 19 Chwefror 2020.

## **Gwaith i wella ein safonau gwasanaeth**

### **Gwefan**

Mae'r tîm Cyfathrebu Digidol wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y wefan yn hygyrch i bawb, gan gynnwys holl ofynion y Gymraeg.

Oherwydd bod cynnwys ein gwefan bellach yn cael ei gyhoeddi fel tudalennau gwe, byddwn yn diweddarau ein canllawiau cyfieithu fel rhan o'r gwaith hwn. Mae Safon 36 yn ein galluogi i gyhoeddi gwybodaeth dechnegol a gwyddonol yn Saesneg ynghyd â chrynodeb Cymraeg dwyieithog o'r adroddiad. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r gynulleidfa a ragwelir, eu disgwyliadau a'u gofynion iaith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal wrth gyhoeddi ar y wefan.

### **Caffael**

Eleni, rydym wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth esbonio'r broses dendro'n fwy clir a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan gyflenwr o ran gwasanaeth Cymraeg y byddai disgwyl iddo ei ddarparu.

Mae hyn wedi helpu gyda'r broses sgorio, gan sicrhau bod y rheiny sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan yn ymwybodol o'n polisïau, ein gweithdrefnau a disgwyliadau'r cyhoedd.

### **Map perygl llifogydd tymor hir**

Mae'r wefan hon yn galluogi'r cyhoedd i wirio perygl llifogydd, archwilio gwybodaeth perygl llifogydd fanwl, neu edrych ar y map cyngor datblygu i gefnogi cais cynllunio. Mae

tudalennau'r gwefan yn Gymraeg ond nid yw'r gwasanaeth yn cyflwyno cynnwys Cymraeg unwaith y bydd y system i weld y map yn cael ei hagar.

Ar hyn o bryd, mae'r data ar y wefan hon yn cael ei ddiweddarau. Bydd ail ran y prosiect hefyd yn ystyried gallu ieithyddol y rhaglen a bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod elfennau'r feddalwedd y mae gennym reolaeth drostynt yn cael eu diwygio ac ar gael i'r defnyddiwr yn Gymraeg.

### **Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer y Coronafeirws**

Mae'r Cynlluniau Parhad Busnes wedi cael eu diweddarau yng ngoleuni pandemig y coronafeirws, i sicrhau gwydnwch yn ein holl leoliadau gwaith ac i gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Roedd ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn ffurfio rhan o'r cynlluniau diweddaredig i sicrhau, lle y bo'n bosib ac yn rhesymol, ein bod yn gallu cyflawni gofynion deddfwriaethol ein safonau yn ein gwasanaethau i'r cyhoedd.

Gellir gweld ein Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer ein gwaith cyfieithu a'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn **Atodiad 3** i'r adroddiad hwn.

### **Gweithio mewn partneriaeth**

Mae ein tîm Addysg Iechyd ac Adnoddau Naturiol yn bartneriaid ym mhrosiect Gwastadeddau Gwent, a rhan o'n cyfraniad i'r bartneriaeth oedd cyfieithu'r deunydd, gweithio gyda'r dylunydd i sicrhau bod y testun Cymraeg yn gywir, a phrawfddarllen <https://www.lefelaubyw.co.uk/adnoddau-dysgu>

Gan weithio gydag Adran Addysg Prifysgol De Cymru, gwnaeth myfyrwyr greu pecyn o syniadau am sut i ddefnyddio pecyn cymorth addysgu i gefnogi *The Lost Words: A Spell Book* (Macfarlane a Morris, 2017) er mwyn addysgu plant yn yr awyr agored. Gwnaeth ein tîm weithio gyda'r brifysgol i lunio fersiwn Gymraeg o'r adnodd, sydd ar ein gwefan [Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru](#).

Gwnaeth y tîm weithio gyda chonsortium addysg Gogledd Cymru GwE, gan gynnal saith sesiwn hanner diwrnod ar gyfer athrawon y blynyddoedd cynnar ar draws Gogledd Cymru ar addysgu am ailgylchu gwastraff drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwnaeth 122 o athrawon gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

Gyda'r un grŵp yn gweithio gyda chynghorwyr mathemateg, rhifedd a llythrennedd, cafodd dau gwrs eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystyried sut i ddatblygu'r pynciau hyn ar gyfer dysgu awyr agored, a gwnaeth 40 o gynghorwyr gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

Cynhaliwyd cynhadledd Chwarae Naturiol yn Ynys Môn ar ddechrau mis Mawrth 2020. Cynhaliwyd dwy sesiwn yn y gynhadledd drwy gyfrwng y Gymraeg ar chwarae'n naturiol yn yr awyr agored gan ein tîm, a gwnaeth 110 o bobl gymryd rhan yn y ddwy sesiwn.

Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu addysgwyr i gynyddu eu hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth a'u defnydd cynaliadwy o'n hamgylchedd naturiol fel ystafell ddosbarth, gan gynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored uniongyrchol a gwella llesiant corfforol ac emosiynol yn yr amgylchedd naturiol, sy'n ffurfio rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mae'r tîm yn rhagweithiol wrth sicrhau bod cyfranogwyr ar yr holl gyrsiau hyfforddi yn ymwybodol o'r siaradwyr Cymraeg pan fydd cyrsiau hyfforddi yn cael eu cynnal yn Saesneg a bod yr holl ddeunyddiau hyfforddi yn ddwyieithog.

## Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Lle y bo'n bosib, rydym yn hyrwyddo'r iaith a diwylliant ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a'r fewnwyd, e.e. roedd cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol, ein Diwrnod Shwmae a'n Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg yn cael eu hyrwyddo'n fewnol ar Yammer.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gwnaeth y tîm lleol yng Ngwydir drefnu digwyddiadau yn y goedwig. Cafodd y digwyddiadau hyn eu cynnal yn ddwyieithog er mwyn rhannu ein hiaith Gymraeg a'n diwylliant â'r sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yng Nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin yn ystod hanner tymor mis Tachwedd 2019. Gwnaeth Urdd Gobaith Cymru gynnal gweithdai dawnsio closen i blant Meirionydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd parti Calan Gaeaf i hanner cant o blant ac oedolion hefyd, ac roedd hwn yn cynnwys crwydro drwy'r goedwig gyda Ceridwen y wrach yn adrodd straeon, gyda lluniaeth a gemau yn y caffi wedi hynny.

### Diwrnod Santes Dwynwen 25 Ionawr 2020

Gan weithio mewn partneriaeth â Croeso Cymru ar draeth Ynys Llanddwyn, gwnaeth yr artist Marc Treanor ddefnyddio'r tywod i greu delwedd o Santes Dwynwen rhwng y llanw isel ac uchel. Mae'r gwaith celf yn y ddolen isod wedi cael ei weld gan 14,300 o bobl, wedi cael ei aildrydaru 196 o weithiau ac wedi cael ei hoffi 548 o weithiau. Mae'r ddolen isod yn dangos yr artist yn creu Santes Dwynwen ar y dydd. [Croeso Cymru Santes Dwynwen Traeth Niwbwrch](#)

### Dydd Gŵyl Dewi 1 Mawrth 2020

Ni wnaeth ein digwyddiad hyrwyddo arfaethedig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi gael ei gynnal eleni oherwydd Storm Jorge, gyda rhybuddion tywydd yn flaenoriaeth ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mewn trafodaeth gyda'r tîm Cyfathrebu, penderfynodd nad oedd yn briodol annog pobl i ddefnyddio'n canolfannau ymwelwyr a'n cyfleusterau am resymau iechyd a diogelwch.

### Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg gynnal ymgyrch ar 6 Rhagfyr i hyrwyddo hawliau siaradwyr Cymraeg. Gwnaethom gymryd rhan yn yr ymgyrch hon, ynghyd â sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg, i hyrwyddo'n gwasanaethau Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, gan annog cwsmeriaid i'w defnyddio a chynyddu'r nifer sy'n dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn. Defnyddiodd y Comisiynydd yr hashnod #maegenihawl i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

Yn ogystal ag annog ein cwsmeriaid i ddefnyddio'n gwasanaethau yn Gymraeg, gwnaethom hefyd hyrwyddo'n polisi safonau'n fewnol, gan annog ein staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd a rhoi cyfle i'n dysgwyr ymarfer a defnyddio'u sgiliau iaith.

I gyd, gwnaeth 538 o bobl weld y gwaith hyrwyddol hwn ar ein cyfrif cyfryngau cymdeithasol, gyda 49 o bobl yn ei hoffi a 31 o bobl yn ei aildrydaru.

Fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo hon, gwnaethom gyhoeddi a hyrwyddo'n fewnol y canlynol:

- erthygl ar ein mewnwyd a oedd yn cynnwys poster ffeithlun yn tynnu sylw at y pethau sylfaenol y dylai ein holl aelodau staff fod yn eu gwneud yn ddyddiol, e.e. ateb y ffôn a chyfarch ein cwsmeriaid yn ddwyieithog, a bod yn rhagweithiol wrth gynnig dewis iaith i'r rheiny rydym yn ymwneud â hwy
- fideo byr pum munud o hyd sy'n esbonio sut y gall pob aelod o staff weithio'n ddwyieithog a'r cymorth sydd ar gael i'r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg er mwyn eu caniatáu i wneud hynny

## Safonau polisi

### Ymgynghori

Gofynnwyd i'r aelodau staff a oedd yn rhan o waith ymgynghori gynnwys cwestiynau ar yr effaith bosib y gallai polisiau neu benderfyniadau ynglŷn â phrosiectau ei chael ar y Gymraeg yn unol â gofynion Safonau 87–89. Darparwyd dolen i ddogfen a oedd yn cynnwys y cwestiynau perthnasol i'w gofyn.

## Safonau gweithredol

Mae camau wedi cael eu cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r gwasanaethau Cymraeg ar gyfer ein staff ein hunain er mwyn hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn fewnol.

### TGCh

Oherwydd bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn y tîm TGCh, maent yn bwriadu cynnal o leiaf un cyfarfod tîm bob mis drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r tîm hefyd yn chwilio am dechnoleg a fydd yn cyfieithu ar y pryd ac yn bwriadu defnyddio'r cyfarfodydd hyn i brofi'r dechnoleg yn y dyfodol.

Mae tîm y Ddesg Wasanaeth yn ceisio sicrhau pan fydd digwyddiad TGCh wedi cael ei agor yn Gymraeg bod y cwsmer / aelod o staff yn parhau i dderbyn gwasanaeth Cymraeg gan y tîm TGCh nes bod y broblem wedi cael ei datrys.

Ar ôl cwblhau'r Rhaglen Newid, mae TGCh yn ystyried galluedd iaith y tîm, gan weithio tuag at gael siaradwyr Cymraeg yn eu holl dimau ym mhob lleoliad yn y dyfodol, a bydd hyn yn helpu i sicrhau dewis iaith fwy cyfartal i'n staff wrth ddelio â'r tîm.

### Nodi siaradwyr Cymraeg

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom weithredu'r gallu i nodi ein haelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn Outlook, sy'n dangos y geiriau "Dwi'n siarad Cymraeg" fel neges wrth deipio enw unigolyn. Mae'r adborth gan staff wedi bod yn gadarnhaol, gyda'r rheiny a oedd wedi ysgrifennu at ei gilydd a siarad â'i gilydd yn Saesneg yn flaenorol dros y ffôn ac ar Skype bellach yn gwneud hynny yn Gymraeg, ac mae hyn wedi helpu i'r Gymraeg gael ei defnyddio'n fwy yn fewnol.

### Dysgu a datblygu

Aeth fframwaith Hyfforddiant Rheoli Tir newydd allan i dendr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n faes gwaith arbenigol â darparwyr hyfforddiant cyfyngedig. Canfuwyd bod rhai darparwyr hyfforddiant yn gallu darparu cyrsiau penodol yn Gymraeg, a fydd yn

galluogi'n tîm Dysgu a Datblygu i gynnig y cyrsiau hyn yn rhagweithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

## **MyNRW**

Defnyddir y system adnoddau dynol a chyllid ar MyNRW gan yr holl staff i gofnodi gwybodaeth. Fodd bynnag, er bod y rhyngwyneb ar gael yn Gymraeg, roedd y meysydd yn y system yn parhau i fod yn Saesneg yn unig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm y System MyNRW wedi cael mwy o fynediad i ddiwygio meysydd penodol yn y system. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ar gymeriadau, mae yna rai meysydd sy'n parhau i fod yn Saesneg yn unig, ac nid ydynt yn cydymffurfio â gofynion Safon 100. Dros y flwyddyn nesaf, bydd MyNRW yn archwilio ffyrdd o weithio tuag at gydymffurfiaeth.

## **Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg**

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae 198 o aelodau staff wedi cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg ar lefelau amrywiol (i lawr o 302 yn y flwyddyn flaenorol). Roedd disgwyl y gostyngiad hwn oherwydd Rhaglen Newid Cynllunio'r Sefydliad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 15 o aelodau staff wedi mynychu dosbarth Mynediad dwys mewnol a ddarperir gan y ganolfan yn ein swyddfeydd ym Mangor a Chaerdydd am bedair awr yr wythnos dros 30 o wythnosau.

Rydym yn bwriadu ailwampio'r rhaglen hyfforddi i ganfod mwy o ddulliau hyblyg o ddysgu Cymraeg i ddiwallu anghenion y staff. Rydym yn bwriadu ail-lansio a hyrwyddo'r rhaglen yn ystod haf 2020, gan geisio denu dysgwyr newydd yn ogystal â pharhau i gefnogi dysgwyr cyfredol.

Mae'r dosbarthiadau sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus dros y chwe blynedd diwethaf ac wedi parhau i fod yn llwyddiannus yn cynnwys ein naw cwrs mewnol wythnosol lle mae tiwtor yn dod i'r gweithlu'n wythnosol.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg yn **Atodiad 4** i'r adroddiad hwn.

## **Safonau cadw cofnodion**

### **Cwynion**

Derbyniwyd pum cwyn gan aelodau'r cyhoedd dros y cyfnod adrodd hwn. Cafodd un o'r cwynion ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg hefyd, a gyflwynodd Hysbysiad o Benderfyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2019. Roedd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn gofyn i ni ddatblygu trefniadau yng Nghanolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, i sicrhau bod galwadau Cymraeg yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn gyfan gwbl, heb doriad yn y gwasanaeth Cymraeg.

Er mwyn ymateb i hyn, gwnaethom newidiadau i'r ffordd yr ymdriniwyd â galwadau ac rydym hefyd wedi cynyddu ein gallu Cymraeg ym Mwlch Nant yr Arian drwy ein proses recriwtio.

Mae gennym dudalen ddynodedig ar ein gwefan sy'n esbonio ein polisi a'n prosesau wrth fynd i'r afael â'n holl gwynion, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â'n polisi iaith Gymraeg.

Gellir gweld manylion y cwynion a dderbyniwyd a sut yr ymdriniwyd â hwy yn **Atodiad 5** i'r adroddiad hwn.

Cafwyd cynnydd yn nifer y cwynion gan staff pan nad ydym yn cadw at ein polisi iaith mewnol. Roedd rhan o'r gwaith i fonitro ein cydymffurfiaeth â'r safonau'n gofyn i reolwyr drafod ac esbonio gofynion ein polisi iaith mewnol â'u staff i gyd.

### **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Am bob polisi neu brosiect newydd neu ddiwygiedig, mae gofyn i staff gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn cynnal a diogelu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn yr offeryn asesu.

Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, cynhaliwyd 13 o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dros y flwyddyn nesaf, gwnaethom gynnig adolygu'r asesiad a sicrhau ein bod yn ymgorffori proses fwy cadarn ar draws y sefydliad a fydd yn hysbysu'n rheolwyr yn well wrth wneud penderfyniadau am rwystrau posib, gan ein helpu i ymgysylltu'n well â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'n cwsmeriaid.

### **Sgiliau Cymraeg yr holl weithwyr**

Dengys ein cofnodion eleni fod 23.7% (486 aelod o staff) o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda 275 o'r rheiny'n rhugl wrth siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Drwy ein proses recriwtio allanol, rydym wedi penodi 58 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol dros y flwyddyn ddiwethaf. Ymddengys bod y ganran wedi gostwng o 24.3% (428 o aelodau staff) y llynedd, ond mae hyn oherwydd cynnydd yn niferoedd ein staff.

Mae proffil oedran ein siaradwyr Cymraeg wedi newid, gyda mwy o'n staff yn y grwpiau oedran 22 i 29 oed a 30 i 39 yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'n proses recriwtio, a ddefnyddiwyd gennym eleni i hysbysebu 55 o rolau'n gofyn am siaradwr Cymraeg ar Lefel 4 neu 5 lle roedd hyn yn ofyniad hanfodol ac 84 lle roedd yn ofyniad dymunol, er mwyn cyflawni'n gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn y gweithleoedd hynny.

Gellir gweld mwy o wybodaeth am sgiliau Cymraeg a phroffil oedran ein staff sy'n siarad Cymraeg yn **Atodiad 6** i'r adroddiad hwn.

Ym mis Mai 2019, cyflwynwyd tri chwrs 90 munud yr un yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd pawb a ddaeth yn siaradwyr Cymraeg. Dyma'r cyrsiau:-

- Deallusrwydd emosiynol – roedd chwech o bobl yn bresennol
- Gwydnwch gwych – roedd chwech o bobl yn bresennol
- Cyflwyniad i ymwybyddiaeth ofalgar – roedd saith o bobl yn bresennol

Rydym yn gobeithio ehangu'r cynnig hwn yn y dyfodol.

### **Llenwi swyddi gwag**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd cynnydd yn nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn fewnol ac yn allanol oherwydd swyddi gwag ddim yn cael eu llenwi yn dilyn ein Rhaglen Newid.

Caiff pob swydd ei hysbysebu gan gynnwys lefelau iaith Gymraeg y Gymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE) o Lefel 1 i Lefel 5, fel y bo'n briodol i'r rôl. O'r 884 o swyddi



gwag a hysbysebwyd, roedd 404 yn fewnol yn unig ac roedd 480 wedi cael eu hysbysebu'n fewnol ac yn allanol.

Mae Cymraeg ar Lefel 1 yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gan mai dyma'r lefel iaith isaf sydd ei hangen ar holl staff ein sefydliad i ddangos cwртеisi ieithyddol. Rhoddir hyfforddiant i staff y mae angen iddynt gyflawni'r lefel hon o ddealltwriaeth.

Roedd nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn fel a ganlyn

<b>Y lefel iaith y mae ei hangen ar gyfer y swydd</b>	<b>Gofyniad hanfodol</b>	<b>Gofyniad dymunol</b>	<b>Deiliad y swydd i ddysgu Cymraeg i'r lefel a ddymunir</b>
Lefel 5 – Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig	5	0	0
Lefel 4 – Rhugl yn y Gymraeg ar lafar	50	41	4
Lefel 3 – Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	5	43	4
Lefel 1 – Y gallu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol	732	0	0

### **Monitro mewnol**

Yn dilyn y Rhaglen Newid, gyda thimau a staff newydd ar waith, gofynnwyd i reolwyr llinell gwblhau a dychwelyd ffurflen fonitro fel rhan o'n gwaith wrth reoli'n safonau ein hunain. Gwnaeth 37 o reolwyr gwblhau a dychwelyd y ffurflenni ar ran eu timau, sef cyfanswm o 336 o aelodau staff.

Gwnaeth yr ymarfer hwn dynnu sylw at yr agweddau cadarnhaol canlynol:

- Mae 98% wedi hunanasesu a chofnodi eu sgiliau Cymraeg yn MyNRW
- Mae gan 97% lofnod e-bost a theitl swydd dwyieithog
- Mae 91% yn ymwybodol o'n rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg

Fodd bynnag, dyma lle mae angen gwneud gwelliannau:

- Mae 65% yn rhagweithiol wrth gynnig cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau yn Gymraeg
- Mae 61% yn cyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog
- Mae gan 43% neges peiriant ateb ddwyieithog

Dyma a wnaeth yr ymarfer monitro ei ddangos:

- Pan fydd yn bosib darparu testun/gwybodaeth yn ddwyieithog i'r staff ei defnyddio, mae'n cael ei defnyddio gan y mwyafrif.
- O'r sylwadau a dderbyniwyd ar ateb y ffôn a chyfarch pobl yn ddwyieithog, diffyg hyder yn lle amharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yw'r rheswm y mae'r staff yn defnyddio Saesneg yn unig.
- Mae angen mwy o gysondeb wrth gynnig dewis iaith yn rhagweithiol i ddechrau wrth ohebu neu drefnu cyfarfodydd. Mae mwyafrif ein systemau meddalwedd cofnodi

TGCh mewnol yn Saesneg yn unig, sy'n gallu peri anhawster i'r defnyddiwr pan fydd dan bwysau i fod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaeth dwyieithog.

- Roedd rhai'n teimlo fel nad oedd y polisi mewnol yn cael ei ddilyn bob tro o ran rhoi'r cyfle i staff weithio neu gyfranogi mewn cyfarfodydd tîm yn Gymraeg. .

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried cynnal cyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb i helpu staff i fagu hyder wrth ateb y ffôn a chyfarch pobl yn ddwyieithog i helpu i sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n fwy eang yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Byddwn hefyd yn ystyried cynnal cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan helpu staff i ennill dealltwriaeth well o ddiwylliant ac anghenion siaradwyr Cymraeg ac o'r safonau'n gyffredinol. Byddwn hefyd yn gweithio i hyrwyddo'n polisi mewnol yn fwy eang a chynnig cyrsiau i reolwyr ar fanteision gweithio'n ddwyieithog.

## Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018/19

Mae canfyddiadau adroddiad Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, "*Hawlio cyfleoedd: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018-19*", yn dangos y canlynol:

- Mae momentwm yn arafu mewn rhai gwasanaethau ac yn gwaethygu mewn rhai meysydd. Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ganlyniadau meintiol sy'n deillio o fonitro sefydliadau cyhoeddus, ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a chyswllt y Comisiynydd â sefydliadau.
- Mae defnyddwyr yn hyderus y byddant yn derbyn gwasanaethau ysgrifenedig neu'r rheiny y gellir cynllunio ar eu cyfer yn y Gymraeg, ond mae'n llai tebygol y gallant dderbyn gwasanaethau ffôn / wyneb yn wyneb yn Gymraeg.

Bwriedir i'r adroddiad roi hwb i sefydliadau wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael bob tro drwy feddu ar drefniadau mewnol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth
- Cynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny drwy gynyddu gallu'r gweithlu i wella'r ddarpariaeth
- Rhoi hwb i bobl ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg drwy fod yn rhagweithiol wrth gynnig a darparu'r gwasanaeth hwnnw

Dyma'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd er mwyn ymateb i'r canfyddiadau:

- Asesu pob swydd wag a swydd newydd, gan gadw mewn cof natur y rolau, sy'n seiliedig ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn y tîm yn rhai rhannau o'r wlad.
- Cynnwys cwestiwn yn ein hymarfer monitro yn gofyn a oedd staff yn rhagweithiol wrth gynnig a darparu gwasanaeth Cymraeg.
- Mae ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg ar waith i helpu i ddatblygu sgiliau a galluoedd ieithyddol y gweithlu.
- Nod ein Rhaglen Ffocws Cwsmeriaid yw creu profiadau cwsmer rhagorol a deall a diwallu eu hanghenion drwy wneud newidiadau a gwelliannau i greu'r profiadau cywir i'n cwsmeriaid.
- Rydym yn gweithredu ar adborth a chwynion gan ein cwsmeriaid pan nad ydynt yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg yr oeddent yn ei ddisgwyl, ac mae hyn yn ein helpu i roi mesurau ar waith i helpu i wella'r gwasanaethau hynny ar gyfer y dyfodol.
- Mae ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid a'n gwefan yn darparu dewis iaith cychwynnol yn rhagweithiol, gan ennyn y defnyddiwr i ddefnyddio'n gwasanaethau Cymraeg os am wneud hynny.



# Monitro Cyfoeth Naturiol Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg

## Canfyddiadau'r ymarfer monitro

Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg nodi'r canlynol:

- Nid oedd pob llofnod e-bost y staff yn cynnwys y datganiad dwyieithog. Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb oedi. Gofyniad Safon 7 yw hwn.
- Nid yw'r holl ddogfennau ar ein gwefan yn nodi bod yr wybodaeth hefyd ar gael yn Gymraeg. Gofyniad Safon 45 yw hwn.
- Nodwyd nad oedd ein papurau ymgynghori'n gofyn cwestiynau i geisio barn ar yr effaith y gallai prosiect neu bolisi ei chael ar y Gymraeg. Gofyniad Safonau 87 i 89 yw hwn.
- Cafodd yr holl ganfyddiadau uchod gan Gomisiynydd y Gymraeg eu nodi yn ein rhifyn mis Hydref o'r bwletin Canllaw Misol i Reolwyr, a gofynnwyd i bob rheolwr sicrhau bod gan yr holl staff lofnodion e-bost dwyieithog, bod yr holl ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn nodi bod yr wybodaeth hefyd ar gael yn Gymraeg, a bod templed o'r cwestiynau i'w cynnwys mewn prosesau ymgynghori sy'n ymwneud â defnydd o'r Gymraeg yn cael ei atodi.
- Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg ofyn i nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu cynnwys yn yr adroddiad nesaf yn unol â gofynion Safonau 124 ac 125 at ddibenion recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwynion a disgyblu, ymsefydlu, ymgysylltu â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch, a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd a chyfweiliadau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ac mae modd ei gweld ar dudalen 11.

## Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru 2019 i 2020

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd gan Lywodraeth Cymru dair thema yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 fel amcanion i helpu i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dyma rywbeth rydym yn ystyried ei fabwysiadu ein hunain a byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y gwaith mae'n ei gyflawni. Dyma'r gwaith y gwnaethom ei wneud i helpu i gyflawni'r themâu hyn:-

### Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae gennym raglen hyfforddiant iaith Gymraeg i helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg.

### Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Rydym yn hyrwyddo ac yn annog ein cwsmeriaid yn rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â ni ar ein gwefan a chyda'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid.

Mae ein tîm Addysg Iechyd ac Adnoddau Naturiol yn cynnig cyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg i athrawon y blynyddoedd cynnar ac uwchradd er mwyn helpu i gynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys yr holl ddeunyddiau addysgu a gwybodaeth yn Gymraeg.

### Thema 3: Creu amodau, seilwaith a chyd-destun ffafriol

Mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gwisgo laniard neu fathodyn Siaradwr Cymraeg, gan helpu i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac ati.

Darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus agored.

Agor a chau cyfarfodydd yn Gymraeg, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Gofyn i'r sawl sydd wedi cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd am eu dewis iaith.

Darparu deunydd cyhoeddedig yn ddwyieithog.

### Perygl diffyg cydymffurfio gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Nid yw cwsmeriaid yn gallu prynu trwydded bysgota ar-lein na dros y ffôn drwy wefan .GOV yn Gymraeg. Caiff y wefan ei gweinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ein rhan. Mae goblygiadau cost i adeiladu plattform ar-lein ac wedyn cost flynyddol arall ar gyfer diweddarau'r tudalennau cyfredol, sy'n ofyniad rheolaidd. Mae trafodaethau wedi parhau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar ffordd ymlaen i sicrhau gwasanaeth dwyieithog. Yn ystod 2020, mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch trwyddedau pysgota'n gyffredinol, a chytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg unwaith bod penderfyniad wedi cael ei wneud ar ffordd ymlaen y byddwn yn sicrhau gwasanaeth hollol ddwyieithog er mwyn cydymffurfio â'n safonau gwasanaeth.

Yn dilyn ein hymarfer monitro mewnol eleni ar pa mor dda y mae'r safonau wedi cael eu gweithredu, amlygwyd mewn perthynas â rhai peryglon diffyg cydymffurfio nad yw'r holl staff yn gwneud y canlynol:

- Ateb y ffôn yn ddwyieithog, yn bennaf oherwydd diffyg hyder
- Meddu ar neges peiriant ateb ddwyieithog
- Yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaeth Cymraeg wrth ymdrin â chwsmeriaid

Mae canllawiau ar waith i helpu'r holl staff i weithio'n ddwyieithog ac rydym yn annog cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i helpu siaradwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae gennym siaradwyr Cymraeg yn ein holl swyddfeydd yn ogystal â'r rhan fwyaf o'n timau. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'n gofynion cyfreithiol a bydd hyn yn ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth sy'n ddisgwyliedig gan ein sefydliad.

Dengys ein hystadegau cyfredol fod 23.7% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl a bod nifer uchel o'n siaradwyr Cymraeg rhugl mewn rolau lle nad oes angen iddynt ymdrin â chwsmeriaid. Rydym yn parhau â'n rhaglen hyfforddi i ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm ledled y sefydliad cyfan.

Nid yw'r system MyNRW yn cydymffurfio'n llwyr â Safon Gweithredol 100 oherwydd cyfyngiadau ar gymeriadau mewn meysydd yn y system sy'n atal gwybodaeth rhag bod yn ddwyieithog.

Ar ôl gorffen y Rhaglen Newid, bydd angen mapio sgiliau iaith pob tîm er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn pob tîm, gan ystyried natur a lleoliad y rolau a sicrhau bod y tîm yn gallu cyflenwi gwasanaethau'n ddwyieithog. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog i sicrhau sgiliau Cymraeg digonol ymhlith y gweithlu i ymateb i anghenion tymor hir ein cwsmeriaid a'n staff. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n cynllun gweithredu, y gellir ei weld yn **Atodiad 7** i'r adroddiad hwn. Bydd y strategaeth yn:

- Nodi anghenion iaith y sefydliad
- Nodi sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Cynllunio sut byddwn yn cynnal ac yn cynyddu sgiliau i ddiwallu'r angen a nodwyd

## Casgliad

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol yn y sefydliad gyda nifer uwch o staff yn newid rolau, timau a ffyrdd o weithio. Gyda mwyafrif y rolau yn y strwythur newydd wedi'u llenwi, gallwn bellach symud ymlaen i gyflawni ein diben a darparu'r gwasanaethau mae ein cwsmeriaid yn eu disgwyl gennym.

Mae ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg wedi cyfrannu at lawer o'r newidiadau a gydag ychydig o eithriadau, mae o leiaf un siaradwr Cymraeg ym mhob un o'n timau. Bydd mapio sgiliau iaith ein sefydliad a datblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog mewn partneriaeth â rheolwyr a'n hundebau llafur yn helpu i gynllunio gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn ystyried ffyrdd o fireinio'n rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg, sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu ers cael ei lansio yn 2014. Gyda'r newidiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae angen i ni hyrwyddo manteision dysgu'r iaith nid yn unig at ddibenion gwaith, ond hefyd i'r unigolyn yn bersonol gan ei bod yn ffurfio rhan o dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r gwaith i sicrhau bod ein gwefan yn hygyrch i bawb hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i ailystyried sut rydym yn cyhoeddi ein gwybodaeth er mwyn ei gwneud yn haws i bawb gael mynediad iddi a'i deall. Yr hyn sydd bwysicaf oll yw ein bod am i'n cwsmeriaid ddarparu adborth a mewnbwn i'n gwaith fel y gallwn ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithio ar wella'n gwasanaethau Cymraeg ac yn prif ffrydio ein polisi yn ffyrdd o weithio ein holl dimau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser er mwyn helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y sawl rydym yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

# Atodiad 1

## Rhoi safonau'r Gymraeg sydd gennym ar waith

Isod ceir y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'n polisi ar safonau'r Gymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gofynnwyd i reolwyr yn y Canllaw Misol i Reolwyr drafod gofynion y safonau gyda'u staff, yn ogystal â chwblhau ymarfer monitro i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion sylfaenol y dylent i gyd fod yn eu bodloni fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r ymarfer monitro hwn hefyd yn ffurfio rhan o'n gwaith hunanreoleiddio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau.

## Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau (1 – 83)

- Canllawiau ar waith i ddelio â gohebiaeth cyfrwng Cymraeg, galwadau ffôn, trefnu cyfarfodydd, asesu gofynion cyfieithu, recriwtio, desgiau derbynfeydd, arwyddion a chyfathrebu mewnol, a'r hyn a welir ar y fewnwyd.
- Mae canllawiau ar gyfer ystyriaethau Cymraeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar waith gan y tîm Cyfathrebu.
- Mae ystyriaethau Cymraeg sydd angen eu cynnwys mewn contractau trydydd parti ar gael ar y tudalennau canllawiau caffael ar y fewnwyd.
- Mae ystyriaethau Cymraeg wedi'u hymgorffori yn y canllawiau ar gyfer grantiau.
- Mae'r rhyngwyneb a phob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg.
- Cynhyrchir yr holl ddogfennau cyhoeddus, hysbysebion, hysbysiadau, arwyddion a deunydd hyrwyddo yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg ar yr ochr chwith neu uwchben y Saesneg.
- Arddangosir arwyddion ym mhob un o'n desgiau derbynfeydd cyhoeddus sy'n nodi y croesawir y Gymraeg, ac mae staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau neu laniardiau "Cymraeg" fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu eu hadnabod.
- Gofynnir i staff sy'n siaradwyr Cymraeg wisgo bathodyn neu laniard "Cymraeg" i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Rhoddir y dewis i ddysgwyr i wisgo laniard neu fathodyn "Dysgwr Cymraeg".
- Cofnodir dewis iaith y cwsmeriaid hynny rydym yn ymdrin â nhw yn aml gan ein meddalwedd gyfrifiadurol ar System Cofnodi Digwyddiadau Cymru er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.
- Mae cyrsiau Croeso Cymraeg Gwaith wedi'u trefnu i helpu ein holl staff i gyfarfod, cyfarch ac ateb y ffôn yn ddwyieithog er mwyn dangos cwртеisi ieithyddol.
- Mae templedi pennawd llythyron, agendâu, adroddiadau, nodiadau cyfarfod a chyflwyniadau dwyieithog ar gael at ddefnydd y staff ar y fewnwyd.
- Mae pob un o'n tudalennau Facebook yn dudalennau dwyieithog cyfunol.
- Mae cyfrifon Twitter corfforaethol yn ddwyieithog.
- Mae mesuryddion parcio hunanwasanaeth yn ein meysydd parcio yn cynnig dewis iaith.
- Gellir gweld cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i staff ar y dudalen Dysgu a Datblygu ar y fewnwyd.

- Mabwysiadodd y sefydliad hunaniaeth ddwyieithog o'i ddiwrnod breinio ymlaen.
- Mae tîm cyfieithu mewnol yn weithredol er mwyn cynnal a threfnu gofynion cyfieithu ar gyfer y sefydliad.

### **Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau polisi (84 – 93)**

- Rhaid i staff gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi newydd neu bolisi a ddiwygir, sy'n cynnwys ystyriaethau o'r Gymraeg. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hysgrifennu mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac maen nhw'n cofnodi pa effaith, os o gwbl, y bydd y polisi'n ei chael ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Caiff y rhain eu llofnodi gan Gynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl.

### **Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau gweithredol (94 – 140)**

- Gofynnir i bob aelod o staff newydd a phresennol am ei ddewis iaith o ran derbyn gohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth ac sydd wedi'i chyfeirio ato'n bersonol.
- Mae ein holl bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau pobl ar gael i'r staff ar y fewnwyd yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae polisiau yn caniatáu staff i wneud cwynion a thynnu sylw at faterion yn Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n perthyn i'r gŵyn.
- Mae meddalwedd Windows 10 a ddefnyddir gan bob aelod o staff ar gael yn Gymraeg.
- Mae pecyn gwirio sillafu/gramadeg Cymraeg Cysill/Cysgeir ar gael i bob aelod o'r staff gael ei ddefnyddio.
- Mae'r fewnwyd yn ddwyieithog.
- Ceir tudalen polisi Cymraeg benodol ar y fewnwyd gyda pholisi a chanllawiau ar y safonau i helpu pob aelod o'r staff i weithio'n ddwyieithog a hunanasesu sgiliau Cymraeg, gan gofnodi'r wybodaeth yn system ganolog MyNRW.
- Ceir tudalen hyfforddiant Cymraeg benodol sy'n cynnal canllawiau ar y rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg, sut i drefnu hyfforddiant, adnoddau dysgu i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith, cynllun mentora, apiau rhad ac am ddim i ddysgwyr, geiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol, hanes y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Mae rhaglen hyfforddiant Cymraeg ar waith i roi cyfle i'r holl staff i ddatblygu eu sgiliau iaith at ddibenion gwaith.
- Mae llofnod corfforaethol dwyieithog ar gael at ddefnydd pob aelod o staff.
- Asesir pob swydd newydd a gwag o ran gofynion sgiliau Cymraeg ac fe'i cofnodir at ddibenion archwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Prawdddarllenir y testun ar arwyddion gan ein tîm cyfieithu.
- Mae polisi iaith mewnol ar waith er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r polisi yn cynnwys:
  - Yr angen i'r holl staff asesu eu sgiliau Cymraeg
  - Bod staff yn nodi eu dewis iaith wrth dderbyn gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio atyn nhw'n bersonol

- Bod cynlluniau rheoli perfformiad a hyfforddiant ar gael yn ddwyieithog fel y gall staff eu cwblhau yn eu dewis iaith
- Dylai eitemau a anfonir at yr holl staff neu at grŵp mawr o staff fod yn ddwyieithog
- Anogir y staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ysgrifenedig wrth anfon gohebiaeth yn fewnol
- Annog staff i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfodydd mewnol
- Pa gyrsiau y gall staff ofyn amdanynt yn Gymraeg
- Bod croeso i staff leisio cwyn yn Gymraeg ac y gallant ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn yn Gymraeg yn ystod y broses ddisgyblu fewnol

### **Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â safonau cadw cofnodion a safonau atodol (141 – 168)**

- Cofnodir pob cwyn a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gymraeg ac fe'i hadroddir yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae gweithdrefn gwyno ar waith sy'n esbonio sut yr ymdrinnir â phob cwyn a dderbyniwyd gan ein sefydliad a chyhoeddir y weithdrefn ar ein gwefan. Mae staff sy'n delio â chwynion yn cwblhau modiwl hyfforddiant Gwasanaeth Sifil ar-lein.
- Cyhoeddir polisi safonau'r Gymraeg ar y fewnwyd a'r wefan ac mae'n nodi pob safon y mae gofyn i ni gydymffurfio â hi, gan esbonio sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â phob un. Mae'r polisi ar gael trwy gais ym mhob un o'n swyddfeydd.
- Mae gan Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol gyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi safonau'r Gymraeg.
- Mae'r cynllun corfforaethol yn egluro sut mae'r cynllun busnes yn cysylltu â'n cynllun corfforaethol, ac mae'n nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni i helpu i gryfhau ein gallu dwyieithog a gwella ein gwasanaethau i gwsmeriaid a'n perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid – a hynny drwy ddarparu gwasanaeth yn eu dewis iaith. Mae ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg ar waith er mwyn sicrhau bod gennym nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.
- Cyhoeddir ymwybyddiaeth o'r safonau yn rheolaidd ar y fewnwyd ac yn y Canllaw Misol i Reolwyr, lle gofynnir i reolwyr drafod eu gofynion gyda'u timau.
- Fel rhan o'r broses ymsefydlu gyda staff newydd, gofynnir i reolwyr drafod gofynion y safonau, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol eraill. Caiff y rhestr wirio ymsefydlu ei llofnodi gan y gweithiwr a'r rheolwr a'i chadw ar ffeil.
- Cynhelir y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau gan Gyngorydd Polisi'r Gymraeg – amlygir unrhyw beryglon i'r Tîm Gweithredol, rheolwyr a'r Grŵp Pencampwyr.
- Defnyddir offeryn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi neu brosiect newydd sydd ar waith, er mwyn asesu'r effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddai'n eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cofnodir yr wybodaeth at ddibenion archwilio.
- Gofynnir i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a chofnodi eu canfyddiadau ar ein system ganolog MyNRW. Anfonir e-bost at y staff hynny

nad ydynt eisoes wedi cwblhau'r cam hwn i'w hatgoffa nad ydynt wedi'i gwblhau. Gofynnir yn ogystal i reolwyr llinell sicrhau bod staff yn cwblhau'r dasg hon.

- Trefnir cyrsiau cyfrwng Cymraeg trwy gais gan grŵp o staff.
- Cytunir ar asesiad sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag gan y rheolwr recriwtio a Chynghorydd Polisi'r Gymraeg, gan ystyried natur, lleoliad y swydd a gallu siaradwyr Cymraeg oddi fewn y tîm, i weld a yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu ddymunol neu fod angen eu dysgu ar gyfer pob swydd. Cofnodir yr wybodaeth at ddibenion archwilio a chofnodi.
- Mae Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg yn cofnodi sut mae'r safonau wedi'u gweithredu, unrhyw welliannau a wnaed i'n gwasanaethau Cymraeg, a sut rydym wedi cydymffurfio â'n safonau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyhoeddir yr adroddiad ym mis Medi bob blwyddyn ac fe'i hamlygir ar ein cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan a'r fewnwyd ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd trwy gais. Cyflwynir yr adroddiad drafft gerbron y Pwyllgor Pobl a Chyflogau a'r Tîm Gweithredol cyn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan ein Bwrdd Rheoli. Caiff ei gyhoeddi wedyn yn unol â gofynion y safonau.
- Darperir gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.



## Atodiad 2

### Ystadegau'r cyfryngau cymdeithasol

#### Facebook

Mae pob un o'n tudalennau Facebook yn dudalennau dwyieithog cyfunol, felly nid oes gennym ddadansoddiad o ddilynwyr cyfrif Cymraeg/Saesneg.

Mae gan brif gyfrif **Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales** ar Facebook 14,029\* o ddilynwyr.

Mae gennym 13 o dudalennau Facebook, a dyma'r rhai â'r mwyaf o ddilynwyr:-

- Llwybr Arfordir Cymru: 18,355 (cynnydd o 2,008 o ddilynwyr ar y llynedd)
- Coed y Brenin: 11,448 (cynnydd o 1,083 o ddilynwyr)
- Bwlch Nant yr Arian: 9,783 (cynnydd o 1,349 o ddilynwyr)
- Ceidwaid Beicio Mynydd Coed y Brenin a Gwydir: 5,781 (cynnydd o 795 o ddilynwyr)
- Ceidwaid Beicio Mynydd De Cymru: 5,400 (cynnydd o 889)
- Garwnant: 5,262 (cynnydd o 1,090)

Rheolir y tudalennau gan dimau unigol, ac mae'r tîm Cyfathrebu'n darparu canllawiau a nodion atgoffa ar yr angen i gyfieithu popeth a gaiff ei bostio.

#### Twitter

Mae gennym wyth cyfrif tîm dwyieithog, pedwar cyfrif dwyieithog/Cymraeg, naw cyfrif Saesneg / dysgu Cymraeg, gydag un ar lefel cyfarwyddwr / cadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol, y mae modd eu dilyn ar restr cyfrifon Twitter Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyma'r cyfrifon â'r mwyaf o ddilynwyr:

#### Cyfrifon tîm dwyieithog

- @WalesCoastPath: 24,763 (cynnydd o 663 o ddilynwyr)
- @NatResWales (cyfrif canolog): 18,416 (cynnydd o 3,716 o ddilynwyr)
- @CoedyBreninFP: 2,961 (cynnydd o 89 o ddilynwyr)
- @BNYArian: 1,000 (cynnydd o 112 o ddilynwyr)

#### Cyfrifon dwyieithog/Cymraeg #TîmCyfoeth

- @SianWilliamsNRW: 774 (cynnydd o 79 o ddilynwyr)
- @WardenCadair: 671 (cynnydd o 34 o ddilynwyr)
- @CallumStoneNRW: 394 (cynnydd o 200 o ddilynwyr)
- @GavinBownNRW: 193 (cynnydd o 43 o ddilynwyr)

#### Saesneg / dysgu Cymraeg

- @MTBRangersouth: 831 (cynnydd o 39 o ddilynwyr)
- MartynEvansNRW: 611 (cynnydd o 187 o ddilynwyr)
- @NadiaDL\_NRW: 549 (cynnydd o 84 o ddilynwyr)
- @BenWilsNRW: 464 (cynnydd o 21 o ddilynwyr)
- @SteveMorganNRW: 438 (cynnydd o 112 o ddilynwyr)

\*Roedd y ffigurau'n gywir ar 19 Chwefror 2020.



Er mwyn annog mwy o staff i drydaru yn Gymraeg fel rhan o'u busnes swyddogol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Annog pob aelod o'n staff i ddefnyddio hashnodau #TîmCyfoeth ac #yagym er mwyn helpu i annog y defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd fel #ShwmaeSutMae.
- Rhannu mwy o gynnwys Cymraeg ar draws ein rhwydwaith o gyfrifon – gan sicrhau bod pob cyfrif ar lefel cyfarwyddwr / cadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol yn ymdrechu i gynnwys Cymraeg o fewn cyfrifon lle bynnag y bo'n bosibl.

## Atodiad 3

### Cynlluniau Parhad Busnes

#### Gwaith cyfieithu

Petai tîm cyfieithu mewnol llai ac effaith ar allu ein fframwaith allanol, cytunwyd mai sicrhau y byddai gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn flaenoriaeth. Dyma oedd y Cynllun Parhad Busnes ar gyfer y tîm:-

#### Blaenoriaethu gwaith cyfieithu:

- Gwybodaeth i'r cyhoedd (e.e. deunyddiau'r tîm Cyfathrebu)
- Gwybodaeth i gefnogi pa feysydd busnes sydd wedi'u blaenoriaethu fel hanfodol i fusnes

#### Dad-flaenoriaethu cyfieithu:

- Adroddiadau technegol
- Papurau'r Bwrdd
- Deunyddiau cyfathrebu mewnol

#### Peidio â chyfieithu:

- Papurau briffio / e-byst / deunyddiau COVID-19 i staff – dan y trefniadau ar gyfer ymatebwr Categori 1 oherwydd yr angen brys i gyhoeddi gwybodaeth er ymwybyddiaeth staff

#### Rydym hefyd wedi gwneud y canlynol:

- Annog staff Lefel 5 i gyfieithu eu deunyddiau eu hunain – yn enwedig ar gyfer gwybodaeth fewnol
- Hysbysu Hyrwyddwyr y Gymraeg o'r broses
- Hysbysu a thrafod y broses gyda Chomisiynydd y Gymraeg cyn ei gweithredu

### Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Petai angen i ni gau ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, rhoddwyd yr ystyriaethau canlynol i'r Gymraeg wrth ymdrin â galwadau ffôn ar ein prif linell ffôn.

I sicrhau y gallai galwadau i'n prif linell ffôn gael eu hateb, roedd angen i'r tîm TGCh wneud trefniant teleffoni amgen er mwyn galluogi ein cynghorwyr yn y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid i ymdrin â galwadau o'u cartrefi. Roedd hyn yn gofyn i grŵp 'hela' newydd gael ei greu er mwyn caniatáu i alwadau gael eu trosglwyddo i ffonau symudol.

Oherwydd yr agen i ddod o hyd i ateb yn gyflym ac i alwadau gael eu hateb gan ffonau symudol gwahanol, nid oedd y tîm TGCh yn gallu darparu dewis iaith i'r cwsmer ar y cychwyn fel sydd ar gael fel arfer. Byddai'r galwadau'n cael eu hateb gan gynghorydd sydd nesaf i ateb yr alwad ac felly nid gan siaradwr Cymraeg o reidrwydd, ond byddai pob cynghorydd yn ateb yn gyntaf yn Gymraeg ac yna'n Saesneg. Os yw'r galwr am siarad Cymraeg, ac nid yw'r cynghorydd yn siarad Cymraeg, bydd y cynghorydd yn esbonio pam nad oedd dewis iaith oherwydd yr

amgylchiadau eithriadol a bydd yn rhoi dewis i'r galwr am gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio nôl neu i barhau â'r alwad yn Saesneg.

Ymdrinnir â thua 6% o'r galwadau a dderbynnir yn ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid fel arfer yn Gymraeg; mae gennym ddeg siaradwr Cymraeg a phedwar unigolyn nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gweithio fel cynghorwyr. Gyda phedwar cynghorydd galwadau fel arfer ar gael i ateb galwadau ar unrhyw adeg, byddem yn sicrhau, lle y bo'n bosib, fod y rhain yn siaradwyr Cymraeg, ond oherwydd yr amgylchiadau ac os bydd pethau'n gwaethygu, efallai na fydd hyn yn bosib mewn sefyllfa argyfwng.

### **Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

Y nod fydd ymdrin â'r cwsmer yn ei iaith ddewisol, ond gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y gŵyn/cais, fel arfer bydd angen iddynt gael eu cyfieithu a bydd hyn yn dibynnu ar allu'r staff a'r tîm cyfieithu i fynd i'r afael â'r cais.

Trafodwyd y cynlluniau uchod gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac roeddent yn falch o glywed bod y Gymraeg wedi ffurfio rhan o'n proses cynllunio at argyfwng.

## Atodiad 4

### Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae naw cwrs hyfforddiant Cymraeg mewnol wythnosol wedi'u cynnal, gyda thiwtor yn dod i mewn i'n swyddfeydd. Anfonwyd ffurflenni gwerthuso at ein holl ddysgwyr yn gofyn am adborth ar ansawdd y gwersi. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol yn ystod y flwyddyn, ac roedd canran uchel o'r staff yn gwerthfawrogi'r cyfle a'r cymorth a roddwyd gan y sefydliad i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn ystod oriau gwaith.

### Hyfforddiant Cymraeg wythnosol

Ers mis Medi 2019 (dechrau'r flwyddyn academaidd), mae'r rhaglen wedi cefnogi'r staff i ddysgu bob wythnos yn fewnol fel a ganlyn: -

- Mae 12 o aelodau staff yn mynychu cwrs Mynediad 1
- Mae 15 o aelodau staff yn mynychu cwrs Mynediad 1 Dwys
- Mae 11 o aelodau staff yn mynychu cwrs Sylfaen 2
- Mae 35 o aelodau staff yn mynychu cwrs Canolradd 2
- Mae wyth aelod o'r staff yn mynychu cwrs Uwch 2

Yn anffodus, ni wnaeth ein cwrs mewnol yn Nhrefynwy ac un ym Mangor ac un yn Abertawe gael eu cynnal eleni. Gwnaethom drefniadau i staff fynychu dosbarth allanol.

### Cyrsiau wythnosol a fynychwyd yn allanol

Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi staff i ddysgu'n allanol yn wythnosol fel a ganlyn:

- Mynychodd 27 o aelodau staff gwrs Mynediad 1
- Mynychodd pum aelod o'r staff gwrs Mynediad 1+2
- Mynychodd chwe aelod o'r staff gwrs Mynediad 2
- Mynychodd saith aelod o'r staff gwrs Sylfaen 1
- Mynychodd un aelod o'r staff gwrs Sylfaen 1+2
- Mynychodd chwe aelod o'r staff gwrs Sylfaen 2
- Mynychodd naw aelod o'r staff gwrs Canolradd 1
- Mynychodd un aelod o'r staff gwrs Canolradd 1+2
- Mynychodd un aelod o'r staff gwrs Canolradd 2
- Mynychodd 11 o aelodau staff gwrs Uwch 1
- Mynychodd un aelod o'r staff gwrs Uwch 1+2
  
- Mynychodd tri aelod o'r staff gwrs Uwch 2
- Mynychodd un aelod o'r staff gwrs Meistroli
- Mynychodd tri aelod o'r staff gwrs Hyfedredd

Yn dilyn llwyddiant y rhai hynny sy'n dilyn y cwrs ar-lein ar y cam cyntaf hwn o ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, byddwn yn ystyried mwy o ffyrdd y gallwn ddefnyddio hyfforddiant ar-lein yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu mwy o aelodau staff i ddatblygu eu sgiliau'n fwy rheolaidd ar gyflymdra y gallant ei reoli ac i gymryd rhan yn fwy hyblyg ac yn fwy rheolaidd i ddiwallu eu hanghenion a'u hymrwymadau unigol.

Mae un aelod o'r staff yn cael sesiynau dysgu 1:1 gyda thiwtor i gyd-fynd ag ymrwymadau yn y dyddiadur. Ar ôl edrych ar yr opsiynau, rydym wedi dod o hyd i diwtor ar-lein sy'n gallu gwneud sesiynau awr unwaith yr wythnos ar adeg sy'n cyd-fynd â'r dyddiadur.

Ar hyn o bryd, mae un aelod o'r staff yn dilyn cwrs drwy'r porth "Dweud rhywbeth yn Gymraeg". Mae'r cwrs hwn yn un hunan-arweiniol lle mae'r dysgwr yn dysgu siarad a deall Cymraeg, ac nid yw'r cwrs yn canolbwyntio ar reolau gramadeg, darllen nac ysgrifennu. Bydd y cwrs hwn yn ffurfio rhan o'n rhaglen hyfforddiant ar ei newydd wedd i roi mwy o hyblygrwydd ac opsiynau i'n dysgwyr.

## Rhagor o gymorth i ddysgwyr

### Cyrsiau preswyl a gynhelir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r ganolfan hon wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru ac rydym wedi bod yn ffodus i gael y cyfleoedd sydd wedi cael eu cynnig i ni am ddim ac achub arnynt.

Ers mis Medi 2019, mae ein staff, trwy'r Ganolfan Genedlaethool, wedi mynychu cyrsiau Cymraeg am ddim fel a ganlyn:

- Mae wyth aelod o staff wedi mynychu cwrs preswyl pum niwrnod o hyd ar lefel Canolradd ac Uwch yng nghanolfan iaith Nant Gwrtheyrn. Mae'r adborth gan aelodau staff sydd wedi mynychu'r cyrsiau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac roedd y sawl a fynychodd wedi mwynhau'r cwrs a'r cyfle a roddwyd i ymdrochi yn y cwrs a'r iaith.
- Mae 15 o aelodau staff yn mynychu dosbarth Mynediad mewnol dwys a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ein swyddfeydd ym Mangor a Chaerdydd. Mae'r dosbarthiadau hyn am bedair awr yr wythnos.
- Cyrsiau Canolfan Bedwyr – Prifysgol Bangor
- Mynychodd un aelod o'r staff gwrs 'Cymraeg ar y cyfrifiadur' gyda dau aelod o'r staff yn mynychu cwrs 'Datblygu eich Cymraeg'. Mynychodd dau aelod o'r staff gwrs 'Cymraeg Clir', ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.
- Mynychodd dau aelod o'r staff gwrs 'Sadwrn Siarad'.

### Cyrsiau ar-lein: cwrs "Croeso Cymraeg Gwaith" (cwrs ar-lein deg awr o hyd)

Mae 130 o aelodau staff wedi cofrestru i gwblhau'r cwrs Croeso Cymraeg Gwaith ar-lein a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hwn yn gwrs ar-lein deg awr o hyd i ddatblygu sgiliau iaith staff, fel y gall staff gwrdd a chyfarch ac ateb y ffôn yn ddwyieithog, a dangos cwrteisi ieithyddol. Hyd yma, mae 48 o aelodau'r staff wedi cwblhau'r cwrs hwn. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ceisio gwella'r gyfradd gwblhau drwy ddarparu cymorth ychwanegol os oes angen neu sicrhau bod amser yn cael ei roi i gwblhau'r cwrs hwn.

### Ysgol Galan/Pasg/Haf

- Cafodd tri aelod o'r staff gefnogaeth i fynychu'r Ysgol Basg, mynychodd un aelod o'r staff y cwrs Ysgol Galan, a mynychodd nifer o'n staff gyrsiau adolygu.

### Gloywi Iaith (sgiliau ysgrifenedig)

- Mynychodd wyth aelod o'r staff gyrsiau Gloywi Iaith

- Gwnaeth naw o aelodau staff fynychu Ysgol Haf ar wahanol lefelau

### **Adnoddau Cymraeg ychwanegol**

- Rydym yn parhau i annog staff i ddarllen llyfrau Cymraeg i ddysgwyr, ac mae nifer o'r llyfrau hyn wedi cael eu prynu. Gall staff ofyn i'w benthyg drwy gysylltu â'n Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg.
- Mae tanysgrifiad blynyddol i Golwg ar gael drwy ein llyfrgell ym Mangor.
- Mae bathodynau 'Dwi'n Dysgu Cymraeg' ar gael ar gais ac yn cael eu cynnig i ddechreuwr newydd dros e-bost.
- Gwnaethom greu matiau llygoden Cymraeg i ddysgwyr sy'n ddechreuwr. Maent yn rhoi ymadroddion sylfaenol fel 'Helô', 'Bore da', 'Diolch' ac ati. Rydym yn darparu'r rhain i ddysgwyr newydd. Unwaith eto, caiff y rhain eu cynnig i ddysgwyr gan y Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg.
- Mae gennym drwydded sefydliadol i ddefnyddio'r feddalwedd Gymraeg Cysgliad (gwirio gramadeg a sillafu Cymraeg a geiriadur Cymraeg) ar liniaduron a byrddau gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r feddalwedd hon yn helpu ein siaradwyr Cymraeg a'n dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac mae'n un o'r gofynion yn Safon 116 ein polisi.
- Mae ein tudalen hyfforddiant Cymraeg wedi'i diweddarau gydag adnoddau a gwybodaeth ychwanegol.
- Mae dau ap ffôn symudol, 'App Treiglo' ac 'App Sglein', ar gael ei staff eu lawrlwytho ar eu ffôn symudol gwaith.
- Rydym yn ceisio creu rhwydwaith o ddysgwyr ym mhob swyddfa i helpu dysgwyr gyda gwaith cartref neu i gael sgwrs anffurfiol. Bydd mentoriaid yn bresennol yn y sesiynau hyn.
- Mae gennym grŵp caeedig ar Yammer i ddysgwyr a mentoriaid ofyn unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, gofyn cwestiynau am waith cartref, neu gael gwybodaeth. Roedd y grŵp yn teimlo fel y dylai fod yn gaeedig er mwyn i'r dysgwyr deimlo'n gyfforddus i ofyn cwestiynau yn hytrach na fforwm agored.

## Atodiad 5

### Derbyniwyd pum cwyn gan y cyhoedd yn ystod blwyddyn adrodd 2019/2020

#### Y gŵyn gyntaf

- Gwnaeth aelod o'r cyhoedd drydaru bod enwau'r rhannau ar y llwybrau beicio ym Mwlch Nant yr Arian yn Saesneg yn unig. Anfonwyd y gŵyn hon at gyfrif Twitter Comisiynydd y Gymraeg hefyd. Gwnaethom hefyd dderbyn llythyr gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru mewn perthynas â'r un mater.
- Gwnaeth canfyddiadau ein hymchwiliad mewnol i'r gŵyn ganfod bod y llwybrau wedi cael eu hadeiladu rhwng 2001 a 2004 ac esboniwyd yn ein hymateb bod yr enwau y cyfeiriwyd atynt yn enwau rhannau o'r llwybrau, a bod gan y llwybrau eu hunain enwau Cymraeg. Enwyd y rhannau gan y sawl a adeiladodd y llwybrau ac roeddent yn esbonio tir y rhan honno o'r llwybr i'r beiciwr. Esboniwyd hefyd fod enwau'r rhannau hyn o'r llwybrau'n cael eu defnyddio gan ein gwasanaethau brys ac yn hysbys iddynt pan oedd digwyddiad ar y llwybrau er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i'r claf.

#### Camau gweithredu ychwanegol

- Nid oedd yr achwynydd yn fodlon ar ein hymateb cychwynnol. Gwnaethom gynnig cwrdd a thrafod y mater ym Mwlch Nant yr Arian hefyd ond ni wnaeth yr achwynydd achub ar y cyfle hwn. Gwnaethom gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg am ragor o gyngor.  
Daeth y Comisiynydd i'r casgliad am fod y llwybrau'n bodoli cyn i'r safonau fod ar waith ac nid oedd safon sy'n berthnasol yn benodol i enwi rhannau llwybrau, nid oedd yn bosib iddo ddod i'r casgliad nad oeddem yn cydymffurfio â'r safonau a oedd ar waith. Gwnaeth gynghori y dylem ystyried defnyddio enwau Cymraeg mewn unrhyw brosiect newydd. Mae'r llwybr newydd ym Mwlch Nant yr Arian wedi'i enwi'n Melindwr ac agorwyd hwnnw ym mis Hydref 2019.

#### Yr ail gŵyn

- Derbyniwyd e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn nodi bod llythyr wedi cael ei dderbyn mewn perthynas â "Dal a dychwelyd eogiaid a brithyllod y môr" yn Saesneg yn unig ac nid oedd yn rhoi'r cyfle i'r achwynydd gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg.
- Yn ein hymateb, esboniwyd bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ein rhan. Yn dilyn ymchwiliad i'r mater, gwelwyd bod camgymeriad ar yr wybodaeth a ddefnyddiwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd am yr unigolyn a diwygiwyd y cofnod i ofyn am ohebiaeth ddwyieithog yn y dyfodol. Diolchwyd i'r unigolyn hefyd am ddychwelyd y ffurflen yn amserol, gan ein helpu i reoli eogiaid a brithyllod y môr mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan sicrhau dyfodol ein pysgodfeydd.
- Ni wnaethom dderbyn mwy o ohebiaeth am y mater hwn.
- 

#### Y drydedd gŵyn

- Derbyniwyd e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn tynnu ein sylw at y ffaith nad oedd y negeseuon Cymraeg a Saesneg ar y Llinell Lifogydd yn rhoi'r un wybodaeth ar gyfer dalgyrch afon Efyrrwy.

- Anfonwyd ymateb yn nodi yr ymchwiliwyd i'r mater a bod y tîm a oedd yn gyfrifol yn gweithio ar sicrhau gwasanaeth cyfartal yn Gymraeg a Saesneg erbyn diwedd mis Mawrth 2020.
- Nodwyd bod y tîm a oedd yn gyfrifol am roi'r negeseuon ar y Negesydd Llifogydd wrthi'n cyfieithu'r holl ymadroddion perthnasol pan dderbyniwyd y gŵyn i sicrhau gwasanaeth cyfartal i gwsmeriaid.
- Ni dderbyniwyd unrhyw gyfathrebu pellach am hyn. Mae'r tîm a oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth wedi bodloni'r terfyn amser o ddiwedd mis Mawrth 2020 y soniwyd amdano yn yr ymateb.
- Mae prosiect ar waith i sicrhau gwasanaeth cyson ar draws y timau mewn perthynas â'r Negesydd Llifogydd.

### Y bedwaredd gŵyn

- Gwnaeth aelod o'r cyhoedd drydaru ei fod wedi ceisio defnyddio'n gwefan Taclo Tipio Cymru, gan nodi bod camgymeriadau ar y tudalennau Cymraeg.
- Gwnaeth ein tîm Cyfathrebu Digidol ystyried y mater a chanfuwyd camgymeriadau ar y tudalennau Cymraeg fel a nodwyd. Gofynnodd ein tîm cyfieithu i dîm Taclo Tipio Cymru anfon y testun Cymraeg a Saesneg o'r wefan atynt er mwyn ei brawfddarllen a sicrhau bod y cynnwys wedi'i gyfieithu'n gywir.
- Anfonwyd ymateb drwy Twitter yn dweud wrth yr achwynydd fod cynnwys y wefan yn y broses o gael ei brawfddarllen a'i gywiro gan ein tîm cyfieithu.
- Ni dderbyniwyd unrhyw gyfathrebu pellach am hyn.
- Mae Taclo Tipio Cymru wedi achub ar y cyfle hwn i adolygu cynnwys y Gymraeg ar gyfer y wefan gyfan ac nid y camgymeriadau a nodwyd yn unig. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan ein tîm cyfieithu.

### Y bumed gŵyn

- Ym mis Tachwedd, gwnaeth cwsmer anfon e-bost at ein cyfeiriad e-bost ymholiadau corfforaethol yn Gymraeg a derbyn ymateb yn Saesneg.
- Ymchwiliwyd i'r mater hwn a gweld mai camgymeriad go iawn ydoedd ac anfonwyd ymddiheuriad.
- Gwnaeth rheolwr y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid atgoffa'r holl aelodau staff am ein polisi a gweithdrefnau Cymraeg wrth ymdrin â gohebiaeth yn Gymraeg.
- Ni dderbyniwyd unrhyw gyfathrebu pellach am hyn.

### Cwynion gan staff

- Rydym wedi parhau i dderbyn cwynion gan staff sy'n derbyn e-byst a fwriadwyd ar gyfer holl aelodau'r staff neu grŵp mawr o staff yn Saesneg yn unig.
- Mae pob cyflwyniad i'r staff trwy Skype yn Saesneg yn unig ac nid oes darpariaeth ar gyfer cyflwyniad trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae staff wedi codi'r ffaith nad yw pob tîm yn cydnabod ein polisi iaith mewnol nac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a bod cyfle cyfyngedig i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fewnol.
- Codir y materion hyn i gyd gyda'r timau cysylltiedig, gan dynnu sylw at ein polisi iaith mewnol. Oherwydd y Rhaglen Newid, bu nifer o gyflwyniadau a, lle bynnag y bo'n bosib, mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno'n ddwyieithog neu



mae'r iaith wedi cael ei chydabod ar ddechrau'r cyflwyniad gyda chyfle i ofyn cwestiynau yn Gymraeg ar y diwedd.

- Yn ystod ein hymarfer monitro, atgoffwyd rheolwyr o'n polisi iaith mewnol ac i drafod a chodi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn gyda'u staff.
- Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod pawb yn cadw at y polisi mewnol ac mae angen gwneud mwy o waith i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.

## Atodiad 6

### Sgiliau Cymraeg yr holl weithwyr ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol

#### Sgiliau Cymraeg y staff ar 11 Mawrth 2020

Heb gwblhau datganiad	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Siaradwr Cymraeg rhugl Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
134	63	820	412	136	211	275
6.5%	3.1%	40.0%	20.1%	6.6%	10.3%	13.4%

#### Sgiliau Cymraeg y staff ar 2 Ebrill 2019

185	62	735	388	132	193	235
8.7%	4.1%	42.5%	22.7%	6.4%	11.1%	13.2%

Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar 11 Mawrth 2020 = 486 (23.7%)

Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar 2 Ebrill 2019 = 428 (24.3%)

#### Proffil oedran sgiliau Cymraeg staff ar 11 Mawrth 2020

Oedran	Heb gwblhau	Dim sgiliau Cymraeg	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Dan 21 oed	2	0	3	1	0	0	0
22>29	36	9	57	10	5	20	50
30>39	27	8	163	95	32	50	80
40>49	29	15	285	146	47	70	64
50>59	27	22	251	124	40	46	61
60+	13	9	61	36	12	25	20
	134	63	820	412	136	211	275

Proffil oedran cyfartalog sgiliau Cymraeg staff ar 2 Ebrill 2019

Dan 21 oed	7	0	1	1	0	0	2
22>29	38	4	37	15	3	22	39
30>39	48	10	165	95	38	49	62
40>49	37	15	256	146	40	66	60
50>59	41	24	232	106	44	39	56
60+	14	9	44	25	7	17	16
	185	62	735	388	132	193	235

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn yr holl broffiliau oedran dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwyafrif ein siaradwyr Cymraeg rhugl rhwng 40 a 49 oed ac wedyn 30 a 39 oed ar hyn o bryd.

I gyd, mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y sefydliad wedi cynyddu 58 dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## Atodiad 7

### Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg 2020-2021

Isod, ceir chwe amcan gyda chymau allweddol i'w cymryd i gyflawni pob amcan yn ystod flwyddyn ariannol 2020 i 2021.

#### Amcan 1

Adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Pencampwyr i oruchwyllo a hyrwyddo safonau'r Gymraeg.

#### Camau allweddol

- Adolygu cylch gorchwyl y grŵp
- Hyrwyddo diben y grŵp drwy gyhoeddiadau ar y fewnwyd, Yammer, yn y Canllaw Misol i Reolwyr, mewn cyfarfodydd tîm ac aelodau presennol y grŵp
- Sicrhau aelod ar gyfer pob cyfarwyddiaeth / maes busnes

#### Cyfrifol

Rheoli Pobl

#### Amcan 2

Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Ddrafft

#### Camau allweddol

- Nodi angheniion iaith y sefydliad
- Nodi sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Cynllunio sut byddwn yn cynnal ac yn cynyddu sgiliau i ddiwallu'r angen a nodwyd

#### Cyfrifol

Rheoli Pobl

#### Amcan 3

Yn ymwneud â'n Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

##### 3.1

Parhau gyda thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran prynu trwyddedau pysgota

#### Camau allweddol

- Yn dilyn cytundeb ar ffordd ymlaen, sicrhau bod systemau a gwasanaethau'n cael eu datblygu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg wrth brynu trwyddedau pysgota

##### 3.2

- Adolygu a diweddarau'r canllawiau cyfieithu yn unol â gofynion hygyrchedd

#### Camau allweddol

- Ystyried safonau'r Gymraeg a gofynion deddfwriaeth hygyrchedd a chydaddoldeb

- Drafftio diwygiadau ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn eu cymeradwyo
- Hyrwyddo canllawiau newydd a'u cyhoeddi ar y fewnrwyd, yn y Canllaw Misol i Reolwyr ac mewn cyfarfodydd tîm

### 3.3

- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol

#### **Camau allweddol**

- Hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol
- Annog ein siaradwyr a'n dysgwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddefnyddio'u sgiliau iaith

### 3.4

- Hyrwyddo diwrnodau/digwyddiadau diwylliant Cymru

#### **Camau allweddol**

- Chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo digwyddiadau diwylliant Cymru ar ein mewnwrwyd, ar Yammer ac ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol

#### **Cyfrifol**

Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Rheoli Pobl

Cyfathrebu Digidol

Timau Cyfathrebu

Tîm Dysgu a Datblygu

#### **Amcan 4**

Yn ymwneud â'n safonau polisi

### 4.1

Adolygu ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg mewn Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

#### **Camau allweddol**

- Adolygu'r asesiad effaith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau, er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymunedau mewn ffordd fwy cyfiawn
- Datblygu canllawiau a darparu hyfforddiant i hyrwyddo'r defnydd o Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel arfer da ar draws y sefydliad

#### **Cyfrifol**

Rheoli Pobl

#### **Amcan 5**

Yn ymwneud â'n safonau gweithredol

### 5.1

- Gweithio i sicrhau bod MyNRW yn cydymffurfio'n llwyr â Safon 100

### **Camau allweddol**

- Archwilio ffyrdd i sicrhau bod meysydd absenoldeb yn MyNRW yn ddwyieithog

### 5.2

- Darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyrsiau rheoli tir

### **Camau allweddol**

- Bod yn rhagweithiol wrth gynnig cyrsiau rheoli tir drwy gyfrwng y Gymraeg wrth eu hysbysebu i staff

### 5.3

- Adolygu a diweddarau'r rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg a'i hail-lansio

### **Camau allweddol**

- Ymchwilio i amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael ar-lein, ar Skype, dan hunan-arweiniad, trwy ddysgu mewn ystafell ddosbarth ac ar gyrsiau preswyl mewn trafodaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Diwygio'r rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg
- Lansio rhaglen hyfforddi a'i hyrwyddo ar y fewnrwyd, ar Yammer, yn y Canllaw Misol i Reolwyr ac mewn cyfarfodydd tîm

### 5.4

- Ail-lansio'n cynllun mentora

### **Camau allweddol**

- Gofyn i siaradwyr Cymraeg rhugl fod yn fentoriaid i ddysgwyr
- Hyrwyddo'r cynllun mentora i ddysgwyr ac ar y rhyngwyd, ar Yammer, yn y Canllaw Misol i Reolwyr ac mewn cyfarfodydd tîm

### 5.5

- Rhoi'r opsiwn i ddysgwyr Cymraeg roi'r geiriau "Dwi'n dysgu Cymraeg" ar bwys eu henw yn Outlook

### **Camau allweddol**

- Cynnig opsiwn "Dwi'n dysgu Cymraeg" i ddysgwyr yn Outlook
- Sicrhau bod yr opsiwn "Dwi'n dysgu Cymraeg" yn weithredol i'r rheiny sydd wedi dewis yr opsiwn hwn

### 5.6

- Trefnu cyrsiau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, manteision gweithlu dwyieithog a chynnal cyfarfodydd dwyieithog

### **Camau allweddol**

- Codi ymwybyddiaeth a chanfod diddordeb o ran mynychu'r cyrsiau
- Trafod a threfnu gofynion cyrsiau gyda darparwyr hyfforddiant
- Hyrwyddo cyrsiau ar y fewnrwyd, ar Yammer a thrwy weithdrefnau hyfforddi arferol

## 5.7

- E-bost yn croesawu'r holl ddechreuwyr newydd yn esbonio'r polisi Cymraeg a chyfleoedd hyfforddi
- Sicrhau bod yr holl aelodau staff yn hunanasesu sgiliau Cymraeg ac yn eu cofnodi yn MyNRW

### **Camau allweddol**

- Hyrwyddo polisi, canllawiau a rhaglenni hyfforddi'r Gymraeg
- Casglu ystadegau a chysylltu â staff a rheolwyr i ddiweddarau eu cofnod sgiliau ieithyddol ar MyNRW

## 5.8

- Adolygu a hyrwyddo ein polisi iaith mewnol

### **Camau allweddol**

- Sefydlu gweithgor ar draws y busnes, gan gynnwys yr undebau llafur, i adolygu'r polisi mewnol
- Edrych ar sefydliadau eraill ar gyfer arfer gorau
- Trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg
- Hyrwyddo a lansio polisi sydd wedi'i adolygu

### **Cyfrifol**

Tîm Systemau MyNRW

Dysgu a Datblygu

Rheoli Pobl

TGCh

### **Amcan 6**

Yn ymwneud â'n safonau cadw cofnodion

## 6.1

- Hunanreoleiddio ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a drafftio Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

### **Camau allweddol**

- Cynnal arolwg o'n gwasanaethau Cymraeg ar y wefan, drwy ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid a'n canolfannau ymwelwyr
- Ymgysylltu â busnesau i gasglu gwybodaeth am y gwaith o weithredu a gwella'n gwasanaethau Cymraeg
- Casglu ystadegau ar ein cydymffurfiaeth fel sy'n ofynnol drwy'r safonau cadw cofnodion

### **Cyfrifol**

Rheoli Pobl

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru